| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **11 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/14 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R H Wyn Williams** |

**1. Pwrpas yr Eitem**

1.1 Pwrpas yr eitem yw darparu gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Craffu parthed prif ganfyddiadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad Cyngor Gwynedd o'u hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Gwynedd 2013-14.

1.2 Ar gais AGGCC bydd swyddogion o'r Arolygiaeth yn cyflwyno'r adolygiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu. Cyflwynir copi o Adolygiad AGCC o berfformiad 2013-14 Gwynedd yn **Atodiad 1**.

**2. Cyd-destun, cefndir a phwrpas Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14**

2.1 Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan AGGCC. Bydd yr adroddiad adolygiad sydd yn deillio o'r gwaith yn nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

2.2 Fel rhan o'r broses bydd AGGCC yn rhoi ystyriaeth i ystod helaeth o ffynonellau tystiolaeth ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Ystyrir hefyd sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio gwaith rheoleiddio AGGCC eu hunain.

**3. Ymateb Cyngor Gwynedd i gynnwys adolygiad blynyddol 2013-14**

3.1 Rydym yn croesawu'r adolygiad blynyddol gan yr Arolygiaeth. Cydnabyddir pwysigrwydd y broses flynyddol yma o ran sicrhau derbyn barn annibynnol am berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Yn sicr rydym yn parchu a gwerthfawrogi barn annibynnol rheoleiddwyr o fewn y maes gwaith

3.2 Yn naturiol bydd yna ofyn a disgwyliad ar y Cyngor i fod yn cymryd camau gweithredol er mwyn ymateb i'r meysydd gwella yma. I'r perwyl yma rydym eisoes wedi llunio templed camau ymateb yn 2014-15 â rhaglen waith fesul maes gwella a gyflwynir fel **Atodiad 2**.